Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 307 (Cymru) - 3 Tachwedd 2021**

## Diweddariad ar ganllawiau a chefnogaeth i'r gymuned etholiadol yng Nghymru

**Canllawiau ar gyfer Mai 2022**
Gan fod etholiadau lleol yng Nghymru bellach wedi'u datganoli a bod rheolau newydd yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru am y tro cyntaf cyn bo hir.

Ar hyn o bryd rydym mewn cysylltiad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ddeddfwriaeth drafft ac rydym ar ddeall eu bod yn bwriadu i'r rheolau ddod i rym yng nghanol mis Rhagfur. Rydym yn gweithio ar sicrhau bod y canllaw craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn gallu cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl wedi'r amser hwnnw. Byddwn yn parhau i'ch diweddaru ar y gwaith hwn drwy gyfrwng y Bwletin.

Rydym hefyd wedi dechrau ar waith i fynd i'r afael â'r heriau yn ymwneud â gwydnwch a gallu i ddarparu gwasanaethau etholiadol a gafodd eu hamlygu unwaith eto yn etholiadau Mai 2021.

Mae hwn wedi bod yn ganolbwynt trafodaethau mewn cyfarfodydd diweddar y Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC) a chyda chydweithwyr AEA, ac mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i helpu paratoi'r gymuned etholiadol ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol ym Mai 2022. Yn ystod yr wythnos diwethaf arweiniodd y BCEC seminar Cymru gyfan ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol a oedd hefyd yn cynnwys y Comisiwn a'r AEA. Yn ogystal â hyn creodd y BCEC dempled asesu risg gyda'r bwriad i helpu Swyddogion Canlyniadau a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol gyda asesu'r risgiau sydd ynghlwm â chyflawni'r etholiadau lleol yn ddiogel a chynllunio camau gweithredu er mwyn lliniaru.

Ar lefel y DU rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Cydlynu ac Ymgynghori Etholiadol (BCYE) -
sy'n dod â Swyddogion Canlyniadol Rhanbarthol ynghyd ar draws y DU, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraethau'r DU, yr Alban a

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Diweddariad ar ganllawiau a chefnogaeth i'r gymuned etholiadol yng Nghymru**

Diweddariad ar ein cynlluniau canllaw ar gyfer etholiadau Mai 2022 ac etholiadau yn y dyfodol.

**Swyddi ar gael yn y Comisiwn Etholiadol**

Gwybodaeth am ddau swydd a sut i wneud cais.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r**

Chymru, yr AEA a Solace - ac maent wedi sefydlu grwpiau llai i edrych ar gyflenwyr, gwydnwch a gallu staffio, a lleoliadau. Mae'r ddau grŵp cyntaf eisoes wedi cyfarfod i ystyried graddfa’r heriau sy'n wynebu gweinyddwyr yn y meysydd hyn ac i ddechrau adnabod mesurau lliniaru tymor byr a thymor hir posibl y gellid eu dwyn ymlaen. Byddwn yn eich diweddaru ar y gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo drwy gyfrwng rhifynnau’r Bwletin Gweinyddu Etholiadol yn y dyfodol.

**Canllawiau i ddod**

Rydyn ni hefyd yn parhau gydag ein cynlluniau i drosglwyddo ein canllawiau o ffurf PDF i gynnwys ffurf html ar y we. Mae ein canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes ar gael yn y modd hwn, ac rydym bellach yn symud ymlaen â'n cynlluniau i wneud yr un peth ar gyfer ein canllaw craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ac ymgeiswyr ac asiantau. Fel bob amser, byddwn yn ymgynghori â Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru yn ystod y broses hon.

Canllawiau ar yr etholiadau wedi eu trefnu yn Lloegr Mai 2023 fydd y canllawiau Swyddogion Canlyniadau cyntaf i gael eu cynhyrchu yn y fformat newydd, gyda fersiynau ar gyfer etholiadau eraill, gan gynnwys y rhai a gynlluniwyd ar gyfer Cymru, i'w dilyn ar sail dreigl.

Yn yr un modd â thrawsnewid canllawiau Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ni fydd cynnwys sylweddol y canllawiau yn newid. Fodd bynnag bydd ambell i eithriad yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn cefnogi gweithredu’r mesurau newydd a gyflwynwyd trwy'r Bil Etholiadau. Fel arall, bydd y canllawiau yn parhau i adlewyrchu'r canllawiau a ddarparwyd yn y dogfennau PDF blaenorol, ond gyda newidiadau i’r arddull er mwyn gwella hygyrchedd, llywio a chyflwyniad y canllawiau, gan gadw nodweddion y gwyddom sy'n bwysig i chi, megis y gallu i argraffu copïau caled o adrannau o’r canllaw.

Fel yr arfer, byddwn yn eich diweddaru ar ein cynnydd gyda’r gwaith hwn trwy fwletinau yn y dyfodol.

## Swyddi ar gael yn y Comisiwn Etholiadol

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio am ddau Uwch Gynghorydd (Canllaw etholiadol) ar gyfer y Tîm Canllawiau Etholiadol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am y ddwy swydd yw 21 Tachwedd 2021.

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y rolau, cysylltwch â Mark Pascoe, Rheolwr Canllawiau Cofrestru Etholiadol, trwy 020 7271 0690.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth neu os hoffech wneud cais, ewch i dudalen recriwtio ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.electoralcommission.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2021

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**